

## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Edmund Rees

Nos Lun Gorffennaf 2ail 2018 am 7.30 y.h.

Aeth y Cynghorwyr o amgylch y pentref cyn y cyfarfod a gwelwyd fod angen tocio coed o amgylch y maes parcio top a hefyd i lawr y llwybr. Angen torri a thocio o amgylch y parc picnic.

### Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Sirol Garffild Lewis.
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Paul Weston, ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mai** - cynnig bod y Cofnodion yn gywir gan Paul Weston gyda Gerallt Jones yn eilio.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
  - 5.1. Dim
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. Ysgol Gynradd Pentrefoelas – diolch am y cyfraniad o £60 tuag at arwyddion arafu.
  - 6.2. CBSC – Cyngor Sir yn y broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Pan fydd y CDLI newydd wedi'i fabwysiadu, bydd yn nodi'r polisïau cynllunio defnydd tir yn ystod y cyfnod 2018-33. Bydd hefyd yn cynnwys nifer o ddyraniadau, ar gyfer defnydd fel tai, safleoedd cyflogaeth ac ysgolion. Penderfynwyd holi a oes modd anfon ymlaen un safle o ddiddordeb.
7. **Talu Anfonebau:**
  - 7.1. Meithrinfa Blodau Betws y Coed – cynigiodd Paul Weston gyda Gari Jones yn eilio talu'r anfoneb am y blodau a'r compost o **£88.59** gyda siec rhif **100289**.
  - 7.2. CBSC – Sgip Gymunedol – cynigiodd Gerallt Jones gyda Gari Jones yn eilio talu'r anfoneb o ££185.00 + TAW £37.00 = **£222.00** gyda siec rhif **100291**.
  - 7.3. Archwilydd Mewnol – ar gynigiad Paul Weston gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn anfon cydnabyddiaeth o **£50.00** gyda siec rhif **100290**.
  - 7.4. Thomas a'i Gwmni – plât i'r polyn fflag – cynigiodd Paul Weston gyda Gerallt Jones yn eilio talu'r anfoneb o £79.00 + TAW £15.80 = **£94.80** gyda siec rhif **100292**.
8. **Taliadau a Lwfansau:**
  - i) Cydnabyddiaeth £150.00 i Gynghorwyr – penderfynwyd yn unfrydol na fydd y Cynghorwyr yn derbyn y gydnabyddiaeth.
  - ii) Taliadau/lwfansau – yn unol ag Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011 bu i'r Cynghorwyr llenwi'r ffurflen yn dynodi na fyddant yn hawlio costau ariannol.
9. **Monitro'r Gyllideb:**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
10. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:**

Nid oedd Garffild Lewis yn bresennol.
11. **Unrhyw fater arall:**
  - 11.1. 'Manhole cover' ar yr A5 o flaen y siop angen sylw.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Medi 3ydd 2018 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd \_\_\_\_\_  
Cadeirydd

Dyddiad \_\_\_\_\_ 03.09.18 \_\_\_\_\_

